



Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Annwyl Rieni / Gwarcheidwaid, Staff a Disgyblion** - gobeithio eich bod yn cadw'n iach ac yn ddiogel ac yn parhau i ddilyn y canllawiau wrth ymateb i her y Coronafeirws.

**Adroddiadau Cofnod Cynnydd** – mi fydd adroddiadau cynnydd eich plentyn yn cael eu dosbarthu heddiw drwy e bost gan yr athrawon dosbarth. Yn sgîl y Coronafeirws mae'r profiadau a'r cyfleoedd dysgu wedi bod yn wahanol iawn i'r arfer. Mae cynnwys yr adroddiad yn ffocysu ar safonau a phrofiadau yn ystod y cyfnod o Fedi 2019 i Fawrth 2020. Rydym hefyd wedi cyfeirio at ddysgu cyfunol yn y cartref lle bo hynny'n briodol. Yn sgîl y cyfyngiadau ni fydd cyfle i chi ddod i'r ysgol i drafod yr adroddiad ond mae croeso i chi ddanfôn unrhyw sylwadau yn ôl drwy e bost at yr athrawon dosbarth. Mae croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw bryderon neu faterion sydd angen eglurhad pellach. Gwerthfawrogi os oes modd i chi ddanfôn neges yn ôl **at yr athrawon** i gadarnhau eich bod wedi derbyn yr adroddiad.

**Blwyddyn 6 – Cyfle i ffarwelio** - yn dilyn trafodaeth gyda'r Awdurdod Addysg ag asesiad risg manwl rydym am drefnu cyfle i holl ddisgyblion Blwyddyn 6 i gwrdd ar gae'r ysgol ar y dydd Gwener olaf (Gorffennaf 17eg) rhwng 1 a 3 o'r gloch – gofynnir yn garedig i chi ollwng y plant ger y brif fynedfa rhwng 1:00 a 1:15 a'u casglu am 3 o'r gloch o'r cae (rhagor o fanylion i ddilyn)

**Meithrin a Derby** – Fel yr ydych yn ymwybodol bellach rydym wedi derbyn gwybodaeth gan yr Awdurdod Addysg **NA FYDD** disgyblion y Meithrin a'r Derby yn dychwelyd cyn ddiwedd tymor yr Haf eleni.

**Dysgu Cyfunol** – mi fydd dysgu o adref drwy Teams neu weithgareddau ar wefan yr ysgol yn parhau felly yn ystod wythnos ola'r tymor i bawb fel y prif gyfrwng dysgu ac addysgu (mi fydd ychydig llai o weithgareddau yn ystod yr wythnos olaf) ceisiwch eu cwblhau erbyn y nos Iau os gwelwch yn dda. Diolch yn fawr iawn i chi am eich ymrwymiad i'r tasgau dros y misoedd diwethaf.

**Trefniadau ail agor mis Medi** – yn dilyn datganiad y Gweinidog Addysg, Kirsty Williams ddoe gallaf gadarnhau y bydd yr ysgol yn ail agor i'r holl ddisgyblion ym mis Medi. Mae'n debygol y bydd hyn yn digwydd yn raddol gyda rhai blynyddoedd yn mynychu i ddechrau ac yna adeiladu at sefyllfa lle fydd pawb wedi dychwelyd erbyn dydd Gwener, Medi 11eg fan pellaf. Mi fyddaf yn cadarnhau y trefniadau yn fanylach yn ystod yr wythnos nesaf.

**Gwyliau'r Haf** – mi fydd yr ysgol yn cau yn swyddogol ar ddydd Gwener, Gorffennaf 17eg ac yn ail agor i'r disgyblion ar ddydd Iau, Medi'r 3ydd (Diwrnodau H.M.S ar Fedi'r 1<sup>af</sup> ac 2<sup>ail</sup>) Mi fyddwn yn darparu rhagor o fanylion am ba ddiwrnod yn union fydd blynyddoedd penodol yn dychwelyd wythnos nesaf.

**Cofion gore atoch,**  
**R C Williams, Pennaeth,**  
**10/07/2020**

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL  
Ffôn / Tel: 01970 617613 Ffacs / Fax: 01970 636742

Prifathro / *Headteacher*: Mr R. Clive Williams

**Dear Parents / Guardians, Staff and Pupils** - I hope you are keeping safe and well and continuing to follow the guidelines in responding to the challenge of Coronavirus.

**Progress Reports** - your child's progress report will be distributed today by email from the class teachers. In light of the Coronavirus situation, the learning experiences and opportunities have been very different. The content of the report focuses on standards and experiences during the period September 2019 to March 2020. We have also referred to blended learning in the home where appropriate. Due to the restrictions you will not be able to come to the school to discuss the report but you are welcome to email any comments back to the class teachers. Please feel free to contact me if you have any concerns or issues that require further clarification. It is appreciated if you can send a message back **to the teachers** to confirm that you have received the report.

**Year 6 – an opportunity to say farewell** - following a discussion with the Education Authority and a detailed risk assessment we want to arrange an opportunity for all Year 6 pupils to meet on the school field on the last Friday (July 17th) between 1 and 3 o'clock - please drop off the children at the main entrance between 1:00 and 1:15 and collect them at 3 o'clock from the field (more details to follow)

**Nursery and Reception** - As you are aware we have received information from the Education Authority that Nursery and Reception pupils will NOT be returning before the end of the Summer term this year.

**Blended Learning** - learning from home through Teams or activities on the school website will continue during the last week of term for everyone as the main medium of learning and teaching (there will be fewer activities during the last week) please complete the tasks by Thursday evening if you can. Thank you very much for your commitment to the tasks over the last few months.

**September re-opening arrangements** - following the announcement by Education Minister Kirsty Williams yesterday I can confirm that the school will re-open to all pupils in September. This is likely to happen gradually with some years initially attending and then building to a situation where everyone will have returned by Friday, September 11th at the latest. I will confirm the arrangements in more detail next week.

**Summer Holidays** - the school will officially close on Friday, July 17th and re-open to the pupils on Thursday, September 3<sup>rd</sup> (I.N.S.E.T days on September 1<sup>st</sup> and 2<sup>nd</sup>) We will provide more details on exactly what day certain years will return next week.

**Best wishes to you all,**  
**R C Williams, Headteacher**  
**10/07/2020**